

Teitl y Swydd	Rheolwr Cyfrifon
Tîm	Creadigol
Cyflog:	£30,000 + yn ddibynnol ar brofiad

Trosolwg o'r swydd

Rydyn ni'n chwilio am berson uchelgeisiol a threfnus iawn, gydag o leiaf dair blynedd o brofiad masnachol/asiantaethol, i ymuno â'n tîm Creadigol sy'n tyfu. Byddwch yn cefnogi'r tîm gyda'r gwaith bob dydd o gyflawni prosiectau creadigol ac ymgyrchoedd integredig, gan sicrhau ein bod yn darparu'r ateb creadigol gorau posib i'n cleientiaid.

Mae'r swydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein tîm Creadigol yn cael ei redeg yn esmwyth, a bydd y gwaith yn cynnwys:

- Gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer llawer o'n cleientiaid
- Cefnogi'r gwaith o reoli rhai o'n cyfrifon mwy o faint
- Darparu cefnogaeth weinyddol a logistaidd i'r tîm creadigol
- Sicrhau bod prosiectau'n cael eu cwblhau yn unol â'r briff, y gyllideb a'r rhagolygon
- Gwirio gwaith creadigol o ran cywirdeb ac o ran cyflawni briff y cleient
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o greu cynnwys lle bo hynny'n briodol, e.e. ysgrifennu copi/golygu
- Cynnal cyfathrebu clir gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol
- Meithrin perthynas gadarnhaol gyda'n cleientiaid, rhanddeiliaid, cyfranwyr ac is-gontractwyr
- Cefnogi'r gwaith o baratoi cynigion a dogfennau tendro.

Pam ddylech chi weithio i ni?

Orchard yw'r ganolfan strategol a chreadigol sy'n dod â syniadau'n fyw ac yn rhoi ein pobl yn gyntaf. Byddwch yn gweithio gydag ystod o gleientiaid proffil uchel yn y sector preifat a chyhoeddus, gan ddatblygu brandiau, cynnwys ac ymgyrchoedd newydd.

Bydd bod yn rhan o asiantaeth sy'n darparu gwasanaeth cwbl integredig yn fewnol yn cynnig gyrfa eang a chyffrous i chi. Un diwrnod gallech fod yn brandio dinas, a'r diwrnod nesaf gallech fod ar sesiwn tynnu lluniau, yn taflu syniadau ar gyfer ymgyrch newydd neu'n gweithio ar ddigwyddiad cleient.

Dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol

Fel rhan o'n Tîm Creadigol, byddwch yn cynorthwyo i gyflawni prosiectau mewnol ac allanol, gan sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni ar amser ac i'r safonau ansawdd mae ein cleientiaid, y tîm ac Orchard yn gyffredinol yn eu disgwyl.

Bydd disgwyl i chi hefyd ymgymryd â'r canlynol:

- Cefnogi'r tîm Creadigol i ddyfeisio a darparu datrysiadau creadigol ac arloesol.
- Cynorthwyo gyda rhedeg y tîm o ddydd i ddydd, gan reoli adnoddau a phrosiectau parhaus.
- Creu a rheoli cynlluniau prosiect.
- Cymryd briffiau gan dimau mewnol eraill a gweithredu arnynt.
- Rheoli deunyddiau brand a'u darparu.
- Goruchwyllo ansawdd yr allbwn.
- Meithrin perthynas gadarnhaol gyda'n cleientiaid, rhanddeiliaid, cyfranwyr ac is-gontractwyr.
- Paratoi a rheoli'r broses gynefino ar gyfer yr holl randdeiliaid a chyfranwyr newydd.

Amdanoch chi

Hanfodol

- O leiaf dair blynedd o brofiad mewn swydd debyg, yn ddelfrydol mewn amgylchedd asiantaeth
- Methodoleg drefnus iawn sydd wedi'i gyrru gan brosesau, gyda phrawf o sgiliau rheoli prosiectau
- Gallu gweithio i amserlenni a blaenoriaethu tasgau
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol
- Datryswr problemau creadigol sydd bob amser yn ceisio dod o hyd i atebion
- Gallu gweithredu o fewn amgylchedd sy'n newid ac yn symud yn gyflym
- Cyfforddus gyda gweithio'n annibynnol o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt
- Sylw agos i fanylion, gan gynnwys sgiliau rhagorol o ran prawfddarllen a chymeradwyo gwaith celf
- Cyfforddus wrth gyfathrebu â chleientiaid a chydweithwyr mewn modd proffesiynol
- Sgiliau technoleg gwybodaeth rhagorol a gwybodaeth am raglenni Microsoft (Teams/Excel/Word/PPT)
- Yn gyfforddus yn gweithio ar eich liwt eich hunan, ac yn gallu rheoli eich amser a'ch llwyth gwaith eich hunan yn effeithiol ac yn effeithlon.
- Chwaraewr tîm da sy'n gallu meithrin perthnasoedd cryf ac sy'n dilyn ein gwerthoedd PRIME

Dymunol

- Rhywun sy'n siarad Cymraeg yn rhugl

Pecyn buddion **Orchard**

Ein pobl sy'n ein gwneud ni mor arbennig. Dyna pam rydyn ni'n cynnig pecyn buddion hael i bawb sy'n rhan o'n tîm. Dyma enghraifft o'r buddion sydd ar gael:

- Cyfleoedd gwaith hyblyg ac o bell
- Oriau craidd 10 – 4
- 25 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd â diwrnod ychwanegol i ffwrdd dros y Nadolig
- Awr lles bob mis
- Cyllideb hyfforddi hael
- Yswiriant meddygol preifat
- Cynllun beicio i'r gwaith
- Cyfraniad pensiwn o 8% (sef 4% gennych chi a ninnau'n rhoi'r un faint tuag ato)
- Digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol (fel diodydd ar ddiwedd y mis, clwb ffilm a phêl-droed 5 bob ochr)

Sut i **wneud cais**

Cyflwynwch eich CV a llythyr eglurhaol i ymunoartim@thinkorchard.com erbyn dydd Gwener 14 Gorffennaf. Rydyn ni'n cael nifer fawr o geisiadau felly er y byddwn yn gwneud ein gorau i gysylltu â phawb, os na fyddwch wedi clywed ganddon ni o fewn mis i wneud cais, yn anffodus, fe fyddwch chi wedi bod yn aflwyddiannus.

Rydyn ni'n gyflogwr cyfle cyfartal, sy'n golygu y byddwn yn ystyried pob ymgeisydd sydd â chymwysterau addas beth bynnag eu hunaniaeth neu fynegiant rhywedd, eu tarddiad ethnig, eu cenedligrwydd, eu crefydd neu eu credoau, eu hoedran, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu statws anabledd neu unrhyw nodwedd warchoddedig arall. Rydyn ni'n recriwtio ac yn datblygu ein pobl ar sail teilyngdod a'u hangerdd ac rydyn ni wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol ar gyfer pob gweithiwr.

Blaengar. Parchus. Dychmygus. Ystyriol. Rhagoriaeth.